# SEITHFED ADRODDIAD AC ADRODDIAD TERFYNOL LLYWODRAETH Y DU AR GYFLWYNO A GWEITHREDU RHAN 2 (CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014

# Seithfed Adroddiad ac Adroddiad Terfynol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i Senedd Cymru yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

Mai 2021

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@ukgovwales.gov.uk

978-1-5286-2587-6
CCS0521536662 05/21

Fe'i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

**CYNNWYS**

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | **3** |
| **Y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru** | **3** |
| **Pwerau Benthyca** | **4** |
| **Pŵer i Greu Trethi Newydd** | **5** |
| **Effaith Pwerau Newydd ar Grant Bloc Cymru** | **5** |
| **Gweithgareddau Eraill i Roi Hyn ar Waith** | **6** |
| **Gofynion Adrodd Eraill** | **7** |
| **Casgliad** | **7** |
| **Atodiad A: Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014** | **9** |

Rhagair



Dyma'r adroddiad terfynol ar weithredu datganoli'r pwerau benthyca a threthu o dan Ran 2 o Ddeddf Cymru 2014.

Mae gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru a chreu trethi datganoledig wedi rhoi mwy o atebolrwydd wrth galon setliad datganoli Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfrifol am godi mwy o'r arian mae'n ei wario.

Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r gwaith hwn wedi symud o Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru i Dreth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, yn y drefn honno, yn ogystal â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae gweithredu datganoli cyllidol yn llwyddiannus yn brawf o'r cydweithio cadarnhaol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae'n golygu bod datganoli yng Nghymru yn gryfach o ganlyniad.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS SIMON HART AS**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

Cyflwyniad

1. Hwn yw'r seithfed adroddiad a’r adroddiad terfynol ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae’r rhain yn cynnwys:

   - creu cyfraddau treth incwm newydd i Gymru;
   - datgymhwyso’r Dreth Dir ar Dreth Stamp y DU yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
   - datgymhwyso Treth Dirlenwi'r DU yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
   - darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca; a
   - grym i greu trethi datganoledig newydd.

2. Mae’r darpariaethau ariannol wedi cael eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd. Cafodd Treth Dir y Dreth Stamp a’r Dreth Dirlenwi eu datganoli yn unol â’r amserlen a nodwyd yn y Papur Gorchymyn[1] a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi Bil Cymru ym mis Mawrth 2014. Roedd cytundeb Fframwaith Cyllidol Cymru yn golygu bod modd cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae’r holl ddarpariaethau yn Rhan 2 wedi’u gweithredu’n llawn ac felly nid oes angen gwneud rhagor o waith.

3. Er mwyn i Senedd y DU a Senedd Cymru gael yr holl wybodaeth drwy gydol y broses hon, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ynglŷn â rhoi’r rhan hon o'r Ddeddf ar waith. Er mwyn i Senedd y DU a Senedd Cymru wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth:

   - mae’n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno adroddiad i Senedd y DU, a rhoi copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru;
   - mae’n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, cyflwyno adroddiad eu hunain i Senedd Cymru, a rhoi copi i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac
   - mae’n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ'r Senedd.

4. Mae adran 23(4) o Ddeddf Cymru 2014 yn golygu ei bod yn rhaid gwneud yr adroddiad terfynol ar ben-blwydd cyntaf diwedd y flwyddyn ariannol y cafodd y mesurau olaf yn Rhan 2 eu rhoi ar waith, neu cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl hynny.

5. Mae adran 23(7) o Ddeddf Cymru 2014 yn nodi nifer o ofynion ar gynnwys yr adroddiadau blynyddol. Mae’r gofynion hyn wedi’u nodi yn Atodiad A

[1] Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294422/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

ochr yn ochr â'r rhestr fanwl o baragraffau sy'n rhoi sylw i bob un ohonynt. Roedd y Chweched Adroddiad Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn nodi manylion y gwaith terfynol i roi Rhan 2 ar waith ac ni fu angen rhagor o waith yn y cyfamser. Felly, mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'n gryno y camau gweithredu sydd wedi'u nodi'n fanylach mewn adroddiadau blaenorol.

<u>Cyfraddau Treth Incwm Cymru</u>

6. Daeth CTIC i rym ar 6 Ebrill 2019, gyda chwsmeriaid treth incwm sy'n byw yng Nghymru nawr yn talu cyfraddau Cymreig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn y Penderfyniad ar Gyfraddau Cymru[2]. Roedd hyn wedi golygu llawer o gydweithio rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru ers Deddf Cymru 2014, gan gynnwys i adnabod trethdalwyr Cymru a chyfleu'r newidiadau iddynt. Nodir manylion y gwaith hwn mewn adroddiadau blaenorol. Gan fod yr adran hon wedi cael ei gweithredu'n llawn, nid oes unrhyw gamau ychwanegol wedi cael eu cymryd ers cyhoeddi'r chweched adroddiad ym mis Rhagfyr 2020.

7. Cost gyffredinol rhoi CTIC ar waith oedd £7.95m. Nid yw hyn yn cynnwys costau parhaus gweithredu CTIC. Bydd CThEM yn parhau i ailgodi tâl am hynny i Lywodraeth Cymru. Ar 8 Rhagfyr 2020, roedd CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £7.79m i roi CTIC ar waith.

8. Amcangyfrifir bod y costau gweithredu oddeutu £550,000 ar gyfer 2020-21.

<u>Y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru</u>

9. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru.

10. Yn ystod haf 2017, cafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) eu pasio gan Senedd Cymru. Roedd y rhain yn paratoi'r ffordd ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Ers yr adeg honno, nid yw trethi'r DU wedi bod yn berthnasol yng Nghymru, a chafodd grant bloc Cymru ei addasu i adlewyrchu hynny.

11. Sefydlwyd prosiect ar y cyd gan CThEM a Llywodraeth Cymru yn 2016 i reoli'r broses o ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, a newid i ddefnyddio'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, roedd Bwrdd y

---

[2] Mae'r Penderfyniadau ar Gyfraddau Cymru yn cael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru cyn dechrau pob blwyddyn dreth (15 Ionawr 2019 ar gyfer blwyddyn dreth 2019-20, 3 Mawrth 2020 ar gyfer blwyddyn dreth 2020-21 a 9 Mawrth 2021 ar gyfer blwyddyn dreth 2021-22). Mae pob un yn gosod y cyfraddau treth incwm yng Nghymru ar yr un lefel ag yng ngweddill y DU (ac eithrio'r Alban).

Prosiect wedi goruchwylio newidiadau TG, cynllun cyfathrebu ar y cyd, rhoi mesurau parodrwydd busnes cadarn ar waith a derbyn cytundeb rhannu data ar y cyd rhwng CThEM ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Daeth Bwrdd y Prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2019 ar ôl cwblhau'r gwaith.

12. Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) sy'n llwyr gyfrifol am reoli'r trethi datganoledig hyn. Mae CThEM yn parhau i gydweithio ag ACC, gan rannu gwybodaeth a datblygu dulliau cydymffurfio ar y cyd.

Pwerau Benthyca

13. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca arian at y dibenion canlynol o fis Ebrill 2018 ymlaen:

- Yn y Ddeddf mae pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500m. Gall Gweinidogion Cymru fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw);
- Mae'r Ddeddf yn ehangu'r amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthyca arian ar draws blynyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod hyd at £200m bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500m) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd;
- Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy'n golygu y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £500m i ariannu buddsoddiad cyfalaf. Gall yr arian hwn gael ei fenthyca gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu gan fanciau masnachol. O fewn y terfyn cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o fis Ebrill 2018 ymlaen).

14. Ym mis Rhagfyr 2016, roedd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn cynnwys newidiadau i drefniadau benthyca cyfalaf Deddf Cymru 2014:

- Cafodd y terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol ei gynyddu o £500m i £1bn (fel y deddfwyd yn Neddf Cymru 2017). Cafodd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol hefyd ei gynyddu i £150m o fis Ebrill 2019 ymlaen; ac

- Yn ogystal â benthyca gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu fanciau masnachol i ariannu gwariant cyfalaf, byddai Llywodraeth

Cymru yn gallu cyhoeddi bondiau. Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaeth Llywodraeth y DU Orchymyn felly o dan adran 121(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddiwygio adran 121(1A) o’r Ddeddf honno.

Pŵer i greu trethi newydd

15. Gyda chytundeb y ddwy Lywodraeth, gellir datganoli rhagor o bwerau drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn i Senedd Cymru allu cyflwyno trethi newydd penodol i Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cynnig ffordd i'r Senedd sicrhau canlyniadau polisi, yn ogystal â sicrhau refeniw ychwanegol o bosib. Mae’r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2014 yn cynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â’r cynigion treth newydd.

16. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, ym mis Ionawr 2018, cytunodd Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar broses i asesu unrhyw gynigion gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd penodol i Gymru[3]. Caiff y broses hon ei llywodraethu gan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC)[4] a’i rheoli gan y grŵp o swyddogion sy’n ei gefnogi (JEC(O)):

*Treth ar Dir Gwag*

17. Fe roddodd Llywodraeth Cymru wybod i Senedd Cymru ei bod yn bwriadu cynnig Treth ar Dir Gwag ym mis Chwefror 2018 ac fe ysgrifennodd at Weinidogion y Trysorlys ym mis Mawrth 2018 i roi gwybod i Lywodraeth y DU am fwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau proses Deddf Cymru 2014 yn ffurfiol.

18. Yn unol â’r broses honno a chan gydnabod mai dim ond Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar deilyngdod a dyluniad treth ddatganoledig, mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM wedi bod yn gweithio i gytuno ar Orchymyn drafft a gwybodaeth atodol fel y gellir ei hasesu, yn benodol yn unol â’r meini prawf a nodir yn y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2014. Mae Trysorlys EM wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod ac i lunio’r deunydd sydd ei angen.

Effaith pwerau newydd ar Grant Bloc Cymru

19. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar fframwaith cyllidol i lywio trefniadau cyllido newydd Llywodraeth Cymru.

[3] Cafodd y broses hon ei nodi’n flaenorol yn y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014.

[4] Mae Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC) yn fforwm weinidogol rhynglywodraethol ar gyfer Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer goruchwylio’r broses o drosglwyddo pwerau ariannol. Fe wnaeth y Cyd-bwyllgor gyfarfod am y tro cyntaf ar 20 Hydref 2014.

Mae hyn yn cynnwys addasiadau i'r grant bloc ar gyfer datganoli trethi, a'u perthynas â fformiwla Barnett a chyllid gwaelodol Llywodraeth Cymru.

20. Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trefniadau canlynol i gyllido'r grant bloc:

- ers mis Ebrill 2018 mae ffactor seiliedig ar anghenion wedi cael ei gynnwys yn fformiwla Barnett i bennu newidiadau yng nghyllid grant bloc Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datganoli gwariant;
- mae'r ffactor seiliedig ar anghenion hwn wedi'i osod ar 115%, ar sail yr amrediad sydd wedi'i awgrymu gan Gomisiwn Holtham a'r cyllid gwaelodol a osodwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015;
- er bod cyllid cymharol y pen Llywodraeth Cymru yn parhau'n uwch na 115%, mae ffactor trosiannol o 105% yn cael ei ddefnyddio;
- mae'r newidiadau yng nghyllid y grant bloc o ran datganoli trethi yn cael eu pennu drwy'r model Cymaradwy;
- mae'r system ar gyfer addasu'r grant bloc yn cynnwys didyniad sylfaenol cychwynnol i adlewyrchu'r refeniw trethi y mae Llywodraeth y DU wedi'i hepgor ar bwynt datganoli'r dreth, a mynegeio dilynol drwy'r model Cymaradwy, yn seiliedig ar newidiadau i refeniw trethi cyfatebol Llywodraeth y DU.
- mae'r model Cymaradwy wedi cael ei roi ar waith ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp, y Dreth Dirlenwi a'r holl fandiau Treth Incwm.

21. Mae'r trefniadau hyn wedi pennu cyllid grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 ymlaen. Mae'r cyllid canlyniadol wedi'i nodi yng nghyhoeddiad blynyddol Trysorlys EM ar Dryloywder Grantiau Bloc. Cafodd y diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 ac mae'n ymwneud â chyllid hyd at ac yn cynnwys Prif Amcangyfrifon 2020-21[5].

Gweithgareddau Eraill i roi hyn ar Waith

*Cronfa Wrth Gefn Cymru*

22. Daeth Cronfa Wrth Gefn Cymru yn weithredol ochr yn ochr â'r broses o ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi ym mis Ebrill 2018. Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal £350m gyda'i gilydd heb unrhyw gap blynyddol ar daliadau i mewn i'r Gronfa. Mae gan Lywodraeth Cymru derfyn blynyddol ar gyfer tynnu arian i lawr, sef £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf.

| £m | Rhagfyr 2020 |
|---|---|
| Adnoddau | 228.6 |
| Cyfalaf heb gynnwys Trafodiadau Ariannol | 40.2 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 67.1 |
| **Cyfanswm y Gronfa Wrth Gefn** | **335.9** |

[5] https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-july-2020

## Gofynion Adrodd Eraill

23. Yn ogystal â’r meysydd sydd wedi cael eu trafod mewn penodau blaenorol, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod adroddiadau blynyddol ar Ran 2 o’r Ddeddf yn cynnwys:

    - asesiad o’r broses o weithredu darpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
    - asesiad o’r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Senedd neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys neu eu diwygio gan Ran 2;
    - datganiad am effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
    - unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw Senedd y DU neu Senedd Cymru atynt.

24. Dyma’r seithfed adroddiad ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi bod holl ddarpariaethau Rhan 2 – yn unol ag adran 29(2)(b) o'r Ddeddf – wedi dod i rym ddau fis ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i CTIC a benthyca gan Weinidogion Cymru.

25. Roedd Adran 17 o Ddeddf Cymru 2017 yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn rhoi CTIC ar waith. Daeth yr adran hon i rym ddau fis ar ôl i’r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, ar 31 Mawrth 2017. Roedd y Trysorlys wedi cyflwyno Gorchymyn i roi CTIC ar waith o 2019-20 ymlaen.

26. Fe gyflwynodd Trysorlys Ei Mawrhydi reoliadau a ddaeth ag adran 20 (Gweinidogion Cymru yn benthyca) i rym o 1 Ionawr 2017 ymlaen. Roedd Adran 18 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddyblu cap benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn. Daeth yr adran hon hefyd i rym ar 31 Mawrth 2017.

27. Fel y nodwyd yn y fframwaith cyllidol, roedd y terfyn blynyddol ar wariant cyfalaf hefyd wedi cynyddu. Ar ôl cyflwyno CTIC, mae’r terfyn blynyddol wedi cael ei osod ar 15% o’r cap cyffredinol ar fenthyca, sy’n cyfateb i £150 miliwn y flwyddyn.

## Casgliad

28. Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu y dylai’r adroddiad blynyddol ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 o’r Ddeddf honno gael ei wneud

ar ben-blwydd y dyddiad y cafodd Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), neu cyn hynny.

29. Yn unol ag Adran 23(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r adroddiad blynyddol terfynol ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 gael ei wneud ar, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y pen-blwydd cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y cyflwynwyd y darpariaethau ariannol olaf yn y Ddeddf ynddi.

30. Gan fod y darpariaethau ariannol olaf yn y Ddeddf wedi cael eu rhoi ar waith yn dilyn cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn llwyddiannus ar 6 Ebrill 2019, dyma’r adroddiad blynyddol terfynol.

**Atodiad A: Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014**

1. *datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed hynny gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Paragraff 5

2. *datganiad am y camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed hynny gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Paragraff 2

3. *asesiad o weithrediad darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*

   Paragraffau 24 - 27

4. *asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Senedd neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon,*

   Paragraffau 24 - 27

5. *datganiad am effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac*

   Paragraffau 24 - 27

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw Senedd y DU neu Senedd Cymru atynt.*

   Paragraffau 24 - 27

978-1-5286-2587-6
CCS0521536662